**CYFARFOD RHWNG Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU A'R PLEIDIAU GWLEIDYDDOL**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd am 14:00 ddydd Mercher 20 Ebrill 2011.

**Yn bresennol:**

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG)
Yr Anrhydeddus Mr Ustus Lloyd Jones Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair)

| | |
|---|---|
| Mr P Wood | Comisiynydd |
| Mr J Bader | Comisiynydd |
| Mr E H Lewis | Ysgrifennydd |
| Mr M Redmond | Ysgrifenyddiaeth |

Arolwg Ordnans
Ms M Gordon

Y Blaid Geidwadol
Mr M Lane
Mr R Pratt

Y Blaid Lafur
Mr G Cook

Y Democratiaid Rhyddfrydol
Mr I Walton

Plaid Cymru
Mr G Day

**1. CROESO A CHYFLWYNIADAU**

1.1 Croesawodd Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y rhai a oedd yn bresennol eu hunain.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mr D Hagendyk y Blaid Lafur, Mr K O'Connor y Democratiaid Rhyddfrydol a Ms G Lansdown, Plaid Cymru.

1.3 **Cytunwyd** y câi cofnod y cyfarfod ei gyhoeddi maes o law.

**2. Y DDEDDFWRIAETH NEWYDD**

2.1 Amlinellodd y Dirprwy Gadeirydd y ddeddfwriaeth newydd yn fras gan bwysleisio'r newid sylweddol o'r ddeddfwriaeth flaenorol, llymder y rheolau a'r meini adeiladu a ganiateir ar gyfer etholaethau newydd.

2.2 Cadarnhaodd y Dirprwy Gadeirydd fod Comisiynau Ffiniau'r DU wedi cyfarfod a, chan ddefnyddio'r dull a ddisgrifir yn y ddeddfwriaeth, penderfynwyd y byddai gan Gymru 30 o etholaethau. Mae hyn yn ostyngiad o 10 aelod seneddol,

gostyngiad o 25%, a fyddai'n arwain at newid sylweddol i'r patrwm etholaethol yng Nghymru. Gofynnodd y pleidiau pa feini prawf a gâi eu defnyddio wrth benderfynu ar yr etholaethau a chadarnhaodd y Comisiwn y byddai'n ystyried awdurdodau unedol wrth roi'r meini prawf statudol ar waith ac etholaethau sy'n bodoli eisoes lle bo'n bosibl gwneud hynny ond roedd yn debygol o fod yn anodd iawn cadw at y rhain o ystyried cyfyngiadau llym y ddeddfwriaeth.

2.3 Gofynnodd y pleidiau gwestiwn hefyd am gymuned ddiwylliannol a phwysigrwydd cadw cymunedau ieithyddol ynghyd wrth ffurfio etholaethau. Cadarnhaodd y Comisiwn y câi'r materion hyn eu hystyried o fewn cyfyngiadau'r rheolau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddeddfwriaeth. Gan gyfeirio'n benodol at y Gymraeg, cadarnhaodd y Comisiwn y câi hyn ei ystyried gan ddefnyddio'r data o gyfrifiad 2001.

## 3. MATERION PENODOL

### Terminoleg yr Adolygiad

3.1 Rhoddodd y Dirprwy Gadeirydd wybod y byddai'r Comisiwn yn defnyddio terminoleg wedi'i haddasu ar gyfer yr adolygiad. Y newidiadau yw:

- Bydd y rhain ar ffurf 'Adolygiad o Etholaethau Seneddol 2013', nid y 'Chweched Adolygiad Cyffredinol'
- Bydd y llyfryn y byddwn yn ei gyhoeddi ar ffurf 'Llyfryn Gwybodaeth'
- Bydd 'Argymhellion Dros Dro' yn 'Gynigion Cychwynnol'
- Bydd 'Argymhellion Diwygiedig' yn 'Gynigion Diwygiedig'
- Bydd 'Argymhellion Terfynol' yn aros fel y maent yn y Ddeddf.

### Amserlenni ac Amseru: Cyfnodau Allweddol

3.2 Cafodd papur yn manylu ar yr amserlen cyfnodau allweddol dros dro ei ddosbarthu a'i drafod. Roedd y Comisiwn wrthi'n drafftio'r llyfryn gwybodaeth a fyddai ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Disgwyliwyd i'r cynigion cychwynnol gael eu cyhoeddi ar ddechrau mis Medi. Gofynnwyd pa un a fyddai 24 awr o rybudd ymlaen llaw mewn perthynas â'r cynigion fel yr oedd wedi digwydd mewn adolygiadau blaenorol, a pha un a fyddai hyn yn gwneud cyhoeddi ar ddydd Llun yn anodd. Cytunodd y Comisiwn y câi'r pleidiau gwleidyddol a'r Aelodau Seneddol y 24 awr o rybudd ymlaen llaw ac y byddent yn ystyried amseru'r cynigion er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd. Mae'r Comisiwn yn gobeithio y caiff hyn ei gyhoeddi ar 6 Medi 2011.

3.3 Dywedodd y Blaid Geidwadol fod cyfnod y gwrandawiadau cyhoeddus yn cwmpasu'r un cyfnod â chynhadledd eu plaid. Rhoddodd y Comisiwn wybod iddynt y câi hyn ei ystyried wrth bwyso a mesur pryd y câi'r gwrandawiadau eu cynnal. Roedd y Comisiwn wedi trefnu i'r gwrandawiadau cyhoeddus ddechrau wythnos yn dechrau ar 10 Hydref 2011. Y bwriad oedd cynnal un gwrandawiad bob wythnos ar gyfer y cyfnod pum wythnos. Nid oedd manylion terfynol am leoliadau wedi'u cadarnhau.

Roedd yn bosibl y byddai'r sylwadau cychwynnol a chofnodion y gwrandawiadau cyhoeddus, ynghyd â'r "cyfnod ymgynghori eilaidd" yn cael eu cyhoeddi ym mis

Chwefror 2012 ond nid cyn hynny. Pe cânt eu cyhoeddi ym mis Chwefror, byddai diwedd y cyfnod ymgynghori yng nghanol mis Mawrth 2012.

Yn seiliedig ar yr amserlen hon, mae'n bosibl y gallai'r cynigion diwygiedig a'r cyfnod ymgynghori fod yn haf 2012, rhwng mis Mehefin a mis Awst. Yna byddai'r cyfnod ymgynghori'n dod i ben yn ystod yr hydref rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2012.

Ni fydd unrhyw wrandawiadau cyhoeddus pellach yn ystod y cyfnod hwn. Byddai hyn yn golygu ei fod yn debygol i'r argymhellion terfynol gael eu cyhoeddi ar ddechrau 2013.

Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad cynnydd i'w Gadeirydd (Mr Llefarydd) a fydd ym mis Ionawr bob blwyddyn.

3.4 Gofynnwyd cwestiwn arall o ran yr hyn y byddai pleidiau eraill yn ei gael gan y Comisiwn yn y cynigion. Rhoddodd y Comisiwn wybod iddynt y byddai'r pleidiau'n derbyn copïau o'r adroddiad ysgrifenedig a dau gopi o'r mapiau etholaethol a gâi eu rhoi ar adnau. **Cytunwyd** y câi un set o fapiau ei hanfon i swyddfa pob un o'r pleidiau yn y DU ac y câi un copi ei anfon i swyddfa pob un o'r pleidiau yng Nghymru.

**Sylwadau**

3.5 Cafodd cyfnodau'r sylwadau eu hailadrodd a rhoddwyd gwybod i'r pleidiau am bolisi'r Comisiwn o beidio ag ystyried unrhyw sylwadau <u>a ddaw i law</u> cyn neu ar ôl y cyfnodau ymgynghori dynodedig.

3.6 Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd fod unrhyw sylwadau a wneir i'r Comisiwn yn ystyried y rheolau y mae'r Comisiwn yn ymrwymedig iddynt ac y dylai cyflwyniadau gael eu seilio ar dystiolaeth gymaint ag y bo modd. Gofynnodd y Comisiwn hefyd am enwau unrhyw etholaethau posibl, gan fod hyn wedi'i enwi fel maes anodd posibl.

**Gwrandawiadau Cyhoeddus**

3.7 Soniodd y Dirprwy Gadeirydd fod y Comisiwn yn datblygu ei bolisi ar gyfer y weithdrefn mewn gwrandawiadau cyhoeddus o hyd ond cadarnhaodd ein bod yn bwriadu cynnal y pum gwrandawiad llawn a ganiateir ar gyfer yr adolygiad hwn ledled Cymru. Roedd yn debygol y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn cael dau ddiwrnod llawn yr un.

3.8 Esboniwyd hefyd y byddem yn gofyn am nodiadau llafar cyn y cyfarfodydd. Gofynnodd y Comisiwn p'un a fyddai'r pleidiau'n hoffi cael amser penodol. **Cytunwyd** y byddai'r pleidiau'n cael amser penodol yn y gwrandawiadau cyhoeddus.

3.9 Yn ogystal â'r amseroedd penodol, gan y byddai'r pleidiau'n cyflwyno sylwadau ysgrifenedig Cymru gyfan i'r Comisiwn, byddai'n ddefnyddiol derbyn y rhain cyn wythnos 5 y cyfnod ymgynghori. Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd a fyddai'r pleidiau'n gallu gwneud ymdrech i siarad ym mhob gwrandawiad cyhoeddus yn

bennaf, yn ymwneud ag ardal cynnal y cyfarfod. Roedd consensws eang ymhlith y pleidiau y byddent yn gwneud ymdrech i wneud hynny ond roeddent o'r farn bod cymryd yr amser mewn un gwrandawiad i roi sylwadau Cymru gyfan yn bosibl o hyd.

## 4. LLYFRYN GWYBODAETH A CHYHOEDDIADAU

4.1 Esboniodd y Dirprwy Gadeirydd fod y Llyfryn Gwybodaeth yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ac y caiff ei gyhoeddi maes o law. Y gobaith oedd y byddai ar gael ym mis Mehefin ond mae'n bosibl y bydd yn ddiweddarach yn yr haf.

4.2 Rhoddodd y Dirprwy Gadeirydd wybod i'r pleidiau fod yr holl ddata ar gyfer nifer etholwyr pob adran etholiadol ar gael ar wefan y Comisiwn, ac os, yn ystod yr adolygiad, y câi ei ystyried yn angenrheidiol i ddefnyddio Ardaloedd Cymunedol er mwyn sicrhau cydraddoldeb etholiadol, yna câi'r data etholiadol priodol ei roi ar y wefan hefyd. O ran mapio, mae gan yr Arolwg Ordnans yr holl awdurdodau unedol, etholaethau ac adrannau etholiadol sy'n bodoli eisoes yn eu cynnyrch BoundaryLine a bydd fersiwn BoundaryLine Hydref 2011 hefyd yn cynnwys yr holl Ardaloedd Cymunedol a wardiau'r ardaloedd hynny lle maent mewn wardiau, yng Nghymru.

## 5. CWESTIYNAU

5.1 Gofynnodd y pleidiau eu bod yn cael rhybudd am fwriad y Comisiwn i gyhoeddi'r argymhellion terfynol. Cytunodd y Comisiwn y byddent yn rhoi gwybod i'r pleidiau wrth fabwysiadu'r Argymhellion Terfynol ac wrth gytuno ar ddyddiad cyhoeddi.

## AMSERLENNI AC AMSERU DROS DRO

### Cyfnodau Allweddol

1. Cyhoeddiad
    - 4 Mawrth 2011

2. Cyfarfod gyda'r Pleidiau Gwleidyddol
    - 20 Ebrill 2011

3. Llyfryn gwybodaeth
    - Yn cael ei lunio ar hyn o bryd

4. Cynigion Cychwynnol a 'Chyfnod Ymgynghori Cychwynnol'
    - Cyhoeddi ar ddechrau mis Medi 2011
    - Byddai'r cyfnod cychwynnol o 5 Medi tan 25 Tachwedd, er mwyn osgoi mis Rhagfyr

5. Gwrandawiadau Cyhoeddus
    - Ar y sail uchod, byddai'r gwrandawiadau cyhoeddus rhwng 3 Hydref a 4 Tachwedd
    - Yn ystod tymor cynadleddau'r DU
    - Pum cyfarfod a allai bara hyd at ddau ddiwrnod

6. Adroddiad cynydd i'r Llefarydd
    - Gofyniad newydd – bob mis Ionawr

7. Cyhoeddi Sylwadau Cychwynnol a Chofnodion o Wrandawiadau Cyhoeddus a 'Chyfnod Ymgynghori Eilaidd'
    - Oherwydd yr angen am gyfieithu, nid cyn mis Chwefror 2012
    - Diwedd yr ymgynghoriad canol mis Mawrth (yn seiliedig ar gyhoeddi ym mis Chwefror)

8. Cynigion Diwygiedig a'r Cyfnod Ymgynghori
    - I'w cyhoeddi o bosibl yn yr haf (Mehefin – Awst)
    - Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben yn yr hydref (Medi – Tachwedd)
    - Dim gwrandawiadau cyhoeddus

9. Adroddiad cynnydd i'r Llefarydd (Ionawr 2013)

10. Argymhellion terfynol
    - Yn debygol o gael eu cyhoeddi ar ddechrau 2013.

11. Paratoi ar gyfer Adolygiad 2018